


Law yn Llaw at Iechyd

Gweledigaeth 5 mlynedd ar
gyfer y Gwasanaeth Iechyd
Gwladol yng Nghymru



Law yn Llaw at Iechyd

Gweledigaeth 5 mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae cynaliadwyedd wrth galon ein agenda ac mae iechyd da yn hanfodol er mwyn creu Cymru ffyniannus, lwyddiannus a chynaliadwy. Er mwyn cyflawni hynny, bydd angen cymryd camau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys iechyd. Rhaid inni wella iechyd pawb yng Nghymru. Rhaid inni roi sylw arbennig i bobl ifanc a rhaid inni leihau anghydraddoldeb. Rhaid inni hefyd greu GIG modern sy'n darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n gallu ateb yr heriau sydd o'n blaenau mewn ffordd uchelgeisiol a hyderus.

Mae parch enfawr at y Gwasanaeth Iechyd, ond ar hyn o bryd mae'n wynebu'r heriau mwyaf yn ei hanes. Yn ei adroddiad diweddar, nododd Comisiwn Bevan - a sefydlwyd i gynnig cyngor arbenigol annibynnol i Lywodraeth Cymru - fod y GIG yng Nghymru mewn cyflwr da ar lawer golwg. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r heriau difrifol mae'r GIG yn eu hwynebu - y boblogaeth hŷn gynyddol, anghydraddoldebau parhaus o safbwynt iechyd, mwy a mwy o gleifion â chyflyrau cronig, y cynnydd yn y gyfradd gordewdra, a'r hinsawdd ariannol heriol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i bob pwrpas, roedd y galw a'r disgwyliadau uwch mewn perthynas â'r GIG yn mynd law yn llaw â chynnydd mewn cyllidebau, ond mae'r dyddiau hynny ar ben. Mae ymarfer clinigol yn newid, ac mewn rhai meysydd rydym yn wynebu anawsterau difrifol o ran recriwtio staff pwysig. Gwnaed cynnydd da mewn perthynas ag ailgynllunio gwasanaethau a gwella ansawdd, ond nid digon. Mae gwahaniaethau amlwg o hyd rhwng yr iechyd gorau a'r iechyd gwaethaf yng Nghymru, ac mewn rhai agweddau pwysig nid yw ein perfformiad o'r un safon â gwledydd eraill tebyg i ni.

Nid yw parhau â'r statws quo yn opsiwn, felly. Mae pob un ohonom erbyn hyn yn wynebu dewis. Gallem barhau â'r sefyllfa bresennol, gan geisio ymdrin â phob mater wrth iddo godi, a chan gyflawni newidiadau araf a graddol, os hynny, yn wyneb y pwysau cynyddol. Er hynny, byddai'n beryglus dilyn y trywydd hwnnw ac, yn y pen draw, yn anfuddiol.

Y dewis arall yw achub ar y cyfle a gweithio'n galed am ddyfodol gwell. Dyna'r llwybr y mae'r sefyllfa bresennol, a'n huchelgais, yn ei awgrymu. Dyna'r dewis y mae'r weledigaeth hon yn ei gynnig. Mae'n golygu bod yn rhaid inni hyrwyddo a diogelu iechyd da, a bod yn rhaid i'r GIG chwarae rhan gynyddol yn agenda ehangach y Llywodraeth. Mae'n golygu gweithredu'n gyflym i greu gwasanaethau cynaliadwy a dibynadwy mewn GIG sy'n hawdd i'w ddefnyddio beth bynnag yw'r broblem, ac sy'n mynd ati'n gyflym i ddarparu ymateb effeithiol sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn.

Ni fydd hynny'n hawdd, ond mae'n bosibl. Rwy'n gwybod bod y GIG, Llywodraeth Leol, y Trydydd Sector ac asiantaethau eraill eisoes wedi mynegi eu brwdfrydedd a'u penderfyniad i wella ansawdd bywyd pobl. Bydd angen i bobl Cymru hwythau gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain ac am iechyd eu teuluoedd a'u cymunedau. Byddwn yn rhoi pob cefnogaeth iddynt wneud hynny. Rwyf o'r farn y gall model Cymru fod yn un o safon fyd-eang, er gwaetha'r holl heriau. Rwy'n gwahodd pobl Cymru i ymuno â ni i greu Cymru lle mae iechyd gyda'r gorau yn y byd.



Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y ddogfen hon

Mae'r weledigaeth hon yn adlewyrchu balchder parhaus yn yr egwyddorion a'r gwerthoedd sydd wedi'u hymgorffori yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'n adeiladu ar y gwerthoedd a'r egwyddorion hyn, ar bolisiâu a phrofiadau diweddar, ac ar ymrwymadau maniffesto Llywodraeth Cymru i gyflwyno datganiad o fwriad newydd. Mae wedi cael ei datblygu gyda chymorth y GIG a'i bartneriaid agosaf, Llywodraeth Leol a'r Undebau Llafur.

Y Weledigaeth ar gyfer y GIG yn 2016

Yn ei adroddiad diweddar, cefnogodd Comisiwn Bevan yr uchelgais o greu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd o'r radd flaenaf i Gymru. Roedd yn diffinio'r gwasanaethau hyn fel '*services best suited to Wales but comparable with the best anywhere*'. Derbyniodd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yr adroddiad a'i argymhellion, sy'n cyd-fynd â'r camau a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu.

Yn awr, rhaid inni fynd ati ar y cyd i **weithredu**. Rydym o'r farn y gallwn gyflawni gwelliannau sylweddol dros y pum mlynedd nesaf:

Iechyd gwell i bawb –

- bydd mwy o blant yn cael dechrau da ar fywyd
- bydd llai o fwloch rhwng iechyd y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig
- bydd y cyfraddau gordewdra, smygu, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn gwastatáu neu'n gostwng
- bydd pobl yn byw bywydau hirach o ansawdd uchel.

Gwella hygyrchedd a phrofiad y claf -

- bydd yn haws cael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol
- bydd mwy o wasanaethau yn cael eu darparu trwy fferyllfeydd lleol
- bydd mwy o wasanaethau ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn
- bydd ystod ehangach o wasanaethau lleol yn golygu bod llai o angen i deithio
- bydd mwy o wybodaeth am wasanaethau a materion iechyd ar gael dros y ffôn ac ar-lein.

Gwella canlyniadau iechyd trwy wasanaethau mwy diogel o ansawdd gwell -

- byddwn yn gwarantu urddas a pharch cleifion
- bydd y systemau ar gyfer sicrhau gofal o ansawdd uchel gyda'r gorau yn y byd
- bydd pobl yn cael mwy o fudd o ofal iechyd – bydd 'canlyniadau' iechyd yn gwella
- byddwn yn rhoi pob gwasanaeth ar sylfaen gadarn ar gyfer y tymor hirach, gan eu darparu mor lleol â phosibl
- bydd gofal ysbyty arbenigol mewn canolfannau rhagoriaeth yn cyrraedd y safon uchaf

- bydd y GIG yn cydweithio ag asiantaethau perthnasol i sicrhau bod anghenion pobl o ran teithio i'r ysbyty yn cael eu hateb
- bydd y cysylltiadau gorau posibl yn rhoi mynediad cyflym, diogel a sicr i staff clinigol at yr wybodaeth sydd ei hangen i helpu cleifion mewn unrhyw fan yng Nghymru
- bydd y GIG yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ei brif wasanaethau o safbwynt diogelwch, canlyniadau gofal a barn cleifion.

Mae'r sylfeini'n bodoli eisoes

Rydym wedi cymryd camau breision yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae disgwyliad oes yn cynyddu'n gyffredinol, ac mae'r GIG wedi gweld a thrin mwy o bobl yn gyflymach nag erioed o'r blaen. Rydym eisoes wedi cydnabod yr angen am newid, ac mae rhaglen ddiwygio hirdymor uchelgeisiol wedi'i rhoi ar waith.

Yn ystod cam cyntaf y broses ddiwygio, mae strwythurau'r GIG wedi'u symleiddio, a bellach saith Bwrdd Iechyd Lleol yn unig sy'n gyfrifol am iechyd eu trigolion lleol. Gan weithio gydag Ymddiriedolaethau'r GIG, maent erbyn hyn yn trefnu bod eu holl wasanaethau lleol, gan gynnwys meddygon teulu, fferyllwyr, yr ysbyty, a nyrsys ardal, yn gweithio'n well gyda'i gilydd a chyda gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o un system 'integredig', lle mae'r holl elfennau'n cydweithio fel wats.

Fel rhan o'r broses hon, mae'r GIG wedi bod yn datblygu partneriaeth gref gyda'i staff a'u cynrychiolwyr. Maent wedi eu cynnwys yn y broses o ailgynllunio gwasanaethau at y dyfodol. Mae'r cyfranogiad hwn wedi bod yn hanfodol i'r cynnydd a wnaed, gan greu ymdeimlad o bwmpas cyffredin a phenderfyniad i lwyddo.

Mae'r newidiadau hefyd wedi creu arweiniad a chyfeiriad newydd at y dyfodol. Ar y cyd, cytunodd holl gyrff y GIG a'r Llywodraeth ar fframwaith pum mlynedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a pherfformiad gwell ac ar sefydlogrwydd ariannol. Rhaid i'r cam nesaf adeiladu ar y sylfeini hyn.

Mae heriau anodd o'n blaenau o hyd

1. Mae iechyd wedi gwella, ond nid i bawb, ac mae ein poblogaeth yn heneiddio

Nid yw'r gwelliannau mewn iechyd wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng pawb. Mae disgwyliad oes yr ugain y cant mwyaf difreintiedig o'r boblogaeth wedi cynyddu'n arafach nag yn achos unrhyw grŵp arall. Er enghraifft, yn ardaloedd Cyncoed a Butetown yng Nghaerdydd, sydd ond ychydig filltiroedd ar wahân, mae gwahaniaeth o 10 mlynedd yn y disgwyliad oes cyfartalog.

Mae gwreiddiau dwfn gan lawer o'r pethau sy'n achosi iechyd gwael ac yn aml mae'n anodd mynd i'r afael â nhw. Ynghyd â gwledydd eraill, mae Cymru'n wynebu epidemig gordewdra ac mae'r cyfraddau smygu, yfed a

chamdddefnyddio sylweddau yn parhau i achosi pryder. Mae'r argyfwng economaidd wedi effeithio'n wael ar Gymru ac mae'n debygol o greu mwy o alw am adnoddau'r GIG.

O fewn dau ddegawd, amcangyfrifir y bydd bron i un o bob tri pherson yng Nghymru yn 60 oed neu'n hŷn. Erbyn 2031, bydd nifer y bobl sy'n 75 oed neu'n hŷn wedi cynyddu 76 y cant. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod ag un cyflwr cronig man lleiaf – salwch fel diabetes, dementia neu arthritis – a byddant yn dioddef o fwy ohonynt wrth heneiddio.

2. Mae ansawdd gofal iechyd wedi gwella, ond gall y GIG wneud hyd yn oed yn well

Caiff digwyddiadau niweidiol mewn ysbytai eu monitro'n well nag erioed, ac mae'r ymdrechion i'w hatal yn fwy trwyadl. Mae'r fenter 1000 o Fywydau a Mwy wedi treialu dull sy'n profi ei werth o ran hyrwyddo ymarfer clinigol mwy diogel ac effeithiol.

Mae datblygiadau gwyddonol allweddol a thriniaethau cyflymach yn golygu bod y cyfraddau goroesi erbyn hyn yn uwch ar gyfer clefydau a oedd ar un adeg yn angheuol. Bellach, bydd bron pob claf canser yng Nghymru yn cael ei drin o fewn terfynau amser pendant.

Ond eto, mae rhai gwasanaethau o hyd yn cwmpo islaw'r rhai gorau un. Mae pobl yn parhau i gael eu derbyn i'r ysbyty am bethau fel pyliau o asthma, y gellid wedi'u hosgoi petai camau atal ar waith i'w cefnogi'n lleol. Mae adroddiadau archwilio sy'n cymharu ymarfer clinigol a chanlyniadau yn dangos, er bod Cymru'n perfformio'n dda mewn rhai meysydd, ei bod mewn meysydd eraill wedi cwmpo y tu ôl i wledydd y byddem yn eu hystyried yn rhai cyfartal â ni. Hyd yn oed oddi mewn i Gymru, mae gwahaniaethau daeryddol a pherfformiad anghyson i'w gweld.

3. Mae disgwyliadau'n codi'n gyson

Mae llwyddiannau blaenorol a gwelliannau parhaus yn golygu y bydd pobl yn parhau i ddisgwyl mwy. Er bod y disgwyliadau hynny weithiau'n uwch na'r hyn y gall y GIG ei gyflawni ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth a'r GIG yn croesawu disgwyliadau uchelgeisiol ac ymgysylltiad y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau fel sbardun i wella'n barhaus.

4. Mae materion staffio meddygol yn dod yn gyfyngiad go iawn ar ein gwasanaethau

Mae creu gweithlu cynaliadwy yn her sylweddol mewn rhai meysydd o arbenigedd. Mae recriwtio staff meddygol eisoes yn her anodd.

I ryw raddau, gellir ymdrin â hyn trwy ddefnyddio staff proffesiynol a staff cymorth mewn ffordd wahanol a thrwy raglenni o gamau ymatebol cryf sy'n targedu polisïau hyfforddi, recriwtio a chadw i sicrhau bod hyfforddi a gweithio yng Nghymru yn atyniadol i bobl. Fodd bynnag, er gwaethaf y

mentrau hyn, mae anawsterau difrifol yn bodoli o hyd mewn perthynas â recriwtio digon o staff mewn nifer o feysydd clinigol arbenigol.

5. Mae cyfyngiad ar y cyllid sydd ar gael

Er bod y Llywodraeth wedi cynnal lefel y cyllid, mae'r GIG yng Nghymru o hyd yn wynebu dyfodol ariannol anoddach nag ers sawl blwyddyn. Ond mae'n dangos y gall gyflawni mwy gyda'i arian. Wrth gwrs ni ellir gwadu maint yr her, ond mae'r GIG eisoes wedi gwneud llawer i gyfyngu ar wariant tra'n cynnal ansawdd.

*Mae rhai gwasanaethau ym mhobman eisoes yn rhagorol, ac mae'r llwyddiannau diweddar wedi dangos ei bod yn bosibl cyflawni gwelliannau sylweddol. Mae hyn yn ysgogi ymdeimlad o uchelgais cynyddol – **gall Cymru fod ymysg y gorau.***

Y cam nesaf – datblygu i fod gyda'r gorau

Mae'r sylfeini'n bodoli eisoes. Mae a wnelo'r cam nesaf, 2011-2016, â mwy na sefyll yn stond yn unig. Rhaid iddo arwain at drawsnewid gwasanaethau. Mae hynny'n hollbwysig nid yn unig i sicrhau bod cleifion yn parhau i gael yr hyn sydd ei angen arnynt er gwaethaf yr heriau, ond er mwyn helpu i sicrhau datblygiadau allweddol.

Rydym o'r farn y bydd adeiladu ar ein cryfderau presennol - ymrwymiad cryf ein staff, strwythurau symlach y GIG, a thechnolegau arloesol – yn creu system lawer gwell sy'n gwella ansawdd, yn defnyddio adnoddau prin yn ddoeth, ac sy'n cynnwys pobl mewn materion sy'n berthnasol i'w hiechyd ac mewn penderfyniadau am wasanaethau lleol.

Gall Cymru fanteisio ar y cyfle a datblygu ein gwasanaethau yn rhai o safon fyd-eang, a hynny ar sylfaen hirdymor gadarn a chynaliadwy. Bydd hynny'n gofyn am ymdrech i wella trwy'r GIG i gyd a thu hwnt, gyda phobl o bob rhan o Gymru'n adeiladu system iechyd newydd, well. Mae'r adran hon yn nodi lle mae'n rhaid i newid ddigwydd, pam a sut, mewn saith maes pwysig. Mae'n dod i ben trwy ddangos sut y mae'n rhaid i'r GIG reoli'r newid.

1. Gwella iechyd yn ogystal â thrin salwch.

Rhaid i Gymru wneud mwy i ymdrin â'r iechyd gwael sy'n effeithio ar gymaint o bobl, yn arbennig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig ac ymysg ein dinasyddion mwyaf tlawd. Mae llawer o'r gwelliannau mewn iechyd yn ystod y 200 mlynedd diwethaf yn deillio o welliannau cymdeithasol, fel dŵr glân ac addysg dda. Er mwyn ymdrin â'r problemau diweddarach sy'n ein hwynebu, bydd angen cymryd camau mewn perthynas â'r amgylchedd yn ogystal â'r cam anoddach o geisio newid ymddygiad pobl. Mae'r amser wedi dod i fod yn bendant ac i newid o reoli salwch yn unig i greu Cymru iach.

O safbwynt moesol, mae'n annerbyniol bod iechyd rhai unigolion yn sylweddol waeth na'r cyfartaledd, yn arbennig pan fo modd osgoi hynny trwy wasanaethau sydd wedi'u targedu a'u rheoli'n well. Bydd cyrff y GIG yn gweithio'n agos â'u holl bartneriaid i fynd at wraidd iechyd gwael, sy'n deillio o broblemau fel tai diffygiol neu gyrhaeddiad addysgol gwael. Bydd adrannau Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio i raddau cynyddol ar sut i wella iechyd drwy alinio ein polisïau.

Mae maint yr her honno'n golygu bod gan bob un ohonom, Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a dinasyddion, ran i'w chwarae ar y cyd. Mae a wnelo gwella iechyd i bawb â mwy na'r hyn y mae'r GIG yn ei wneud. Mae hefyd yn ymwneud â gwaith, yr amgylchedd, hamdden a bywyd teuluol. Weithiau, awgrymir y bydd newid er gwell yn cymryd cenhedlaeth i ddigwydd. Mae hynny'n wir yn achos rhai pethau, ond rhaid inni hefyd ganolbwyntio ar newidiadau gwirioneddol a sylweddol yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Roedd y dogfennau strategaeth diweddar, *Ein Dyfodol Iach a Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb*, yn nodi sut i gyflawni hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy i gefnogi iechyd plant ac yn cynnal ymgyrchoedd iechyd blynyddol i dacio'r blaenoriaethau mwyaf o ran iechyd y cyhoedd - alcohol, gordewdra, smygu, beichiogrwydd yn yr arddegau, a chamddefnyddio cyffuriau.

Bydd y GIG yn chwarae rhan lawn i gefnogi dechrau da mewn bywyd, o'r adeg cyn geni hyd at fentrau ysgolion iach a nyrsys ysgol. Mae hon yn sylfaen hollbwysig ar gyfer iechyd da gydol oes. Mae Strategaeth Mamolaeth newydd Cymru yn rhoi pwyslais ar iechyd da yn ystod beichiogrwydd, a bydd y GIG yn rhoi cefnogaeth gref i'r fenter *Dechrau'n Deg* estynedig.

Camau gweithredu

Bydd pob Bwrdd Iechyd Lleol yn gosod targedau clir ar gyfer gweithredu ac yn cyflawni yn eu herbyn, gan esbonio bob blwyddyn sut mae iechyd yn gwella a sut mae anghydraddoldebau iechyd yn lleihau.

Bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'i rhaglenni ar gyfer y blynyddoedd cynnar, a fydd yn rhoi cymorth yn benodol i'r rheini sy'n wynebu'r heriau mwyaf mewn bywyd.

2. Un system iechyd

Bydd cyrff integredig y GIG yn cyflymu'r broses o ddatblygu gwasanaethau newydd integredig a symlach. Nid yw gwasanaethau dryslyd, datgysylltiedig yn diwallu anghenion pobl ac yn nid ydynt yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin. Rhaid i'r GIG weithio'n dda gyda'i bartneriaid lleol, gan gynnwys y cyhoedd, i gynllunio gwasanaethau o amgylch pobl, nid sefydliadau. Rhaid iddo weithio'n agos â'r sector

cyhoeddus cyfan i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl a'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae Llywodraeth Leol yn hanfodol i iechyd a lles, er enghraifft drwy ei gwasanaethau addysg, tai ac amgylcheddol ac, wrth gwrs, gofal cymdeithasol. Mae gan y Trydydd Sector – mudiadau cymunedol a gwirfoddol – ran enfawr i'w chwarae hefyd, er enghraifft trwy ddarparu gwasanaethau, cefnogi gofalwyr, helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol, a siarad dros y rheini sydd mewn angen. Bydd y GIG yn cynnwys y sector yn well wrth gynllunio gwasanaethau, ac yn tynnu ar ei hyblygrwydd a'i greadigrwydd i ymestyn ystod, ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol.

Rhaid i'r GIG ei hun weithio fel un a gwneud mwy i helpu pobl i ofalu amdany'n nhw'u hunain a pharhau i fyw'n annibynnol, yn arbennig yn achos y bobl mwyaf agored i niwed. Bydd y gofal a roddir yn ofal mwy personol, a bydd pob gweithiwr iechyd proffesiynol yn cydweithio'n well gyda chefnogaeth systemau gwybodaeth o'r radd flaenaf. Bydd llawer mwy o wasanaethau ar gael 7 diwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd. Byddwn yn adolygu ac yn gwella llwybrau gofal ar draws y GIG er mwyn gwella profiad y claf ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Bydd y Byrddau Iechyd Lleol hefyd yn gwella cysylltiadau ar draws gofal sylfaenol, gofal cymunedol, gofal aciwt a gofal cymdeithasol, yn unol â'r ddogfen strategaeth *Gosod y Cyfeiriad* ac ymrwymadau'r Llywodraeth mewn perthynas â dyfodol gwasanaethau cymdeithasol. Caiff mwy fyth ei wneud i helpu pobl hŷn ac eraill sydd angen gofal tymor hwy.

Bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn sicrhau bod gwasanaethau gofal a gynllunnir, fel llawdriniaethau, ar gael yn brydlon. Byddant hefyd yn profi eu trefniadau presennol ar gyfer gofal heb ei gynllunio, fel gwasanaethau ambiwlans, adrannau damweiniau a gofal ysbyty brys, yn erbyn y syniadau a'r arferion gorau diweddaraf.

Dros y pum mlynedd nesaf, caiff dull cynhwysfawr newydd ei sefydlu ar gyfer gofal iechyd meddwl. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo iechyd meddwl da trwy leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â'r pwnc a hyrwyddo'r broses adfer, yn ogystal â gwella'r gefnogaeth a roddir i bobl â dementia. Bydd mwy o dimau cymunedol a mwy o staff yn gweithio ym maes gofal sylfaenol.

Mae gwelliannau penodol eraill a gynllunnir yn berthnasol i wasanaethau ar gyfer canser, problemau cardiaidd a strôc. Cymerir camau i gynyddu nifer y bobl sy'n rhoi organau ac i hwyluso'r broses honno, ac i greu gwasanaeth cenedlaethol cydlynol ar gyfer gofal diwedd oes.

Camau gweithredu

Cyn pen 12 mis, byddwn yn cyhoeddi cynlluniau cyflenwi ar gyfer gwasanaethau pwysig fel gofal canser, gofal cardiaidd, gofal strôc ac iechyd meddwl, gan nodi'r camau nesaf i wella gwasanaethau.

Byddwn hefyd yn cyflwyno cynlluniau gofal personol ar gyfer pobl sydd â chanser, problemau iechyd meddwl a phroblemau iechyd cronig.

3. Ysbytai ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain fel rhan o rwydwaith gofal cwbl integredig sydd wedi'i gynllunio'n dda

Mae'r achos dros newid yn y GIG yn un pwerus. Mae'n achos sydd wedi'i ddiffinio, i raddau, gan nifer o heriau – y cynnydd yn y galw, disgwyliadau cleifion, cyfyngiadau ariannol, anawsterau recriwtio. Ond mae hefyd yn seiliedig ar gyfleoedd.

Gall gofal symud yn agosach at y cartref. Mae technolegau newydd yn caniatáu i fwy o gleifion gael triniaeth gartref neu'n agosach i'w cartrefi. Mae hefyd yn rhoi i staff clinigol ledled Cymru yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddarparu gofal gwell, mwy diogel a mwy integredig. Bydd timau o feddygon teulu, wedi'u grwpio mewn ardaloedd a chan rannu cymorth arbenigol, yn gwneud mwy, a bydd hynny'n wir hefyd yn achos fferyllwyr. Bydd 'rhwydweithiau clinigol', sy'n cyfuno staff o unedau gwahanol, yn galluogi pobl o ardal eang i fanteisio ar y cyfuniad gorau o sgiliau ac offer.

Mae tystiolaeth gref hefyd y bydd ansawdd a chanlyniadau clinigol yn gwella os byddwn yn datblygu canolfannau rhagoriaeth ar gyfer gofal arbenigol. Bydd y canolfannau hyn yn sicrhau bod y sgiliau a'r offer gorau un wrth law ar gyfer cleifion sydd angen gwasanaethau strôc, er enghraifft. Byddant yn cynnig mynediad 'o amgylch y cloc' at wasanaethau diagnostig a thriniaethau arbenigol.

Y canlyniad fydd sbectrwm o ysbytai cwbl integredig gyda gwasanaethau sylfaenol a chymunedol lleol cryf sydd ar gael i bawb, p'un a ydynt yn byw mewn dinasoedd, trefi neu yng nghefn gwlad. Bydd gan bob Ysbyty Cyffredinol Dosbarth yng Nghymru swyddogaeth hollbwysig o hyd, ond bydd honno'n newid wrth inni ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a amlinellir uchod. Byddant i gyd, yn eu ffyrdd eu hunain, yn datblygu i fod yn 'ganolfannau rhagoriaeth'. Bydd angen i lai o bobl fynd i'r ysbyty. Mae ysbyty Ystrad Mynach, sef yr ysbyty gwirioneddol fodern cyntaf yng Nghymru, yn cynnwys hanner y gwelyau cleifion mewnol o'i gymharu ag ysbytai traddodiadol yr ugeinfed ganrif, ond ddwywaith y cyfleusterau cleifion allanol.

Erbyn 2016, bydd sefydliadau'n ymddangos sydd wedi'u teilwra i raddau mwy. Bydd cleifion â chyflyrau cymhleth iawn sy'n bygwth eu bywydau yn cael eu trin i ddechrau mewn cyfleusterau aciwt arbenigol cyn cael eu trosglwyddo i safleoedd lleol, yn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth neu'n Ysbytai Cymunedol, i barhau â'r broses adfer. Bydd trefniadau atgyfeirio a throsglwyddo diffiniedig ar waith, a system ddiogel ar gyfer rhannu

gwybodaeth. Wrth i gyfleoedd newydd ar gyfer gwella gwasanaethau ddod i'r amlwg, bydd y GIG yn esbonio'r cefndir ac yn ymgysylltu'n llawn â chymunedau lleol mewn perthynas â'r goblygiadau.

Camau gweithredu

O fewn blwyddyn, bydd pob Bwrdd Iechyd Lleol yn cyhoeddi ei gynllun ar gyfer creu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer pob cymuned.

Bydd gwasanaethau strôc yn cael eu gwella'n barhaus, gan gynnwys, er enghraifft, mynediad 24 awr at thrombolysis fel y bydd pob Bwrdd Iechyd Lleol yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau a'r targedau cenedlaethol ar gyfer strôc erbyn 2015.

4. Anelu at ragoriaeth ym mhobman

Y prawf ar berfformiad y GIG fydd iechyd gwell a phrofiad da i'r claf. Gan adeiladu ar yr ymgyrch lwyddiannus *1000 o Fywydau a Mwy*, mae polisi 'dim goddefgarwch' ar waith ledled Cymru erbyn hyn mewn perthynas â briwiau pwysu a heintiau a ddaliwyd wrth gael gofal iechyd. Rhoddir y dull hwn ar waith mewn meysydd eraill hefyd. Bydd cyrff y GIG yn ddiflino yn eu hymdrechion i gyflawni'r safonau uchaf, ac yn gyfranogwyr brwdfrydig mewn archwiliadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'n hollol annerbyniol i bobl beidio â chael eu trin ag urddas tra'u bod yng ngofal y GIG, waeth pa mor anaml mae hynny'n digwydd. Trwy'r GIG i gyd, o aelodau bwrdd i staff y rheng flaen, rhaid bod ymrwymiad diysgog i atal hyn rhag digwydd. Bydd y GIG hefyd yn anelu at sicrhau gofal o ansawdd uchel mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio ac at gydweithio â phartneriaid i wella gwasanaethau ar gyfer y grwpiau sydd fwyaf agored i niwed.

Rhaid i reolwyr roi'r rhyddid i staff ymdrin ag arferion gwael a gwastraff. Gellir gwella symbyliad staff drwy eu galluogi i reoli eu hamgylchedd waith, gan gyfrannu at welliannau ymarferol a'r boddhad o weld manteision amlycach i gleifion.

Yn genedlaethol ac yn lleol, caiff arweiniad clinigol ei wella a chaiff staff eu grymuso, a gwneir mwy o ddefnydd o ddulliau wedi'u profi i wella arferion, fel rhaglenni cydweithredol a meincodi. Bydd disgwyl i staff clinigol fynd ati'n gyson i gymharu eu perfformiad â pherfformiad staff eraill yng Nghymru a'r tu allan i Gymru.

Bydd cyfraniad hollbwysig y GIG at ymchwil a datblygu yn cael ei gefnogi. Yn hyn o beth, gall Cymru eisoes gynnig enghreifftiau o berfformiad o'r safon uchaf, gyda'r GIG a phrifysgolion ar flaen y gad mewn sawl maes. Ar wahân i'w botensial i achub a gwella bywydau, mae ganddo werth ychwanegol o safbwynt hyrwyddo datblygu economaidd a denu'r arbenigwyr gorau i wasanaeth iechyd Cymru.

Camau gweithredu

Erbyn mis Mawrth 2012, bydd Cynllun Cyflenwi Ansawdd yn nodi sut bydd y trefniadau newydd ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd yn gweithredu.

Ymhen blwyddyn, bydd modd i'r GIG ddangos bod pob prif wasanaeth, fel gwasanaethau canser, yn cael eu monitro'n gyson am eu hansawdd a'u profi yn erbyn y dystiolaeth ddiweddaraf.

5. Tryloywder llwyr o ran perfformiad

Mae atebolrwydd yn golygu gonestrwydd mewn perthynas â pherfformiad. Rhaid i'r GIG fod yn dryloyw, er mwyn i bobl allu gweld yn union sut mae'n perfformio. Bydd y Llywodraeth a'r GIG yn gwneud newidiadau sylweddol er mwyn ei gwneud yn haws cael gafael ar wybodaeth. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, ansawdd gwasanaethau, amgylchiadau gofal unigolion, iechyd cyffredinol, canlyniadau clinigol a diogelwch y claf. Bydd Cymru yn cytuno ar ddull cenedlaethol o fesur bodlonrwydd cleifion.

Bydd gwybodaeth well ar gael am bob prif wasanaeth, ac am bob un o'r rhain rhaid dangos cynnydd clir dros y pum mlynedd, yn unol â'r datblygiadau mewn gwledydd a rhanbarthau sy'n debyg i Gymru neu'n gyflymach na hwy. Cyhoeddir adroddiad blynyddol ar gyfer pob prif faes gwasanaeth.

Camau gweithredu

O fewn 6 mis bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Wybodaeth sy'n dangos sut y bydd yn gwella'n ddramatig yr wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

O fewn 6 mis bydd Llywodraeth Cymru wedi rhoi targedau clinigol newydd ar waith, sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol fel canser, gofal cardiaidd a gwasanaethau strôc, a bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu perfformiad yn erbyn y rhain.

6. Partneriaeth newydd â'r cyhoedd

Mae cynnwys cymunedau yn y broses o asesu a chynllunio gwasanaethau yn gwella'r gwasanaethau hynny. Mae cynnwys unigolion mewn penderfyniadau am driniaeth a hunanreoli yn gwella canlyniadau. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd newid mawr yn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, y GIG a phobl Cymru, a hynny'n seiliedig ar 'gompact'. Bydd y GIG yn gweithio'n agos â'r sector cyhoeddus cyfan i gyflawni hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru a'r GIG yn darparu gwybodaeth well am wasanaethau iechyd a gofal iechyd. Bydd mwy yn cael ei wneud i helpu pobl i ddeall materion iechyd ac i reoli eu gofal eu hunain, gan gynnwys

pobl sydd o bosibl angen cymorth arbennig. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wella'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr, sydd mor bwysig i gymaint o fywydau.

Bydd y GIG yn cynnal ymarfer ymgysylltu llawn a pharhaus â chymunedau lleol mewn perthynas ag ailgynllunio'r gwasanaeth, gan weithio gyda Chynghorau Iechyd Cymuned, y cyfryngau lleol a chynrychiolwyr etholedig. Bydd hefyd yn dangos y ffyrdd ymarferol y mae ymgysylltu yn gwella atebolrwydd y GIG i gleifion ac i'r cyhoedd. Bydd yn mynd ati'n frwdfrydig i roi ar waith y strategaeth iaith Gymraeg newydd ar gyfer y GIG.

Yn gyfnewid am hynny, bydd Llywodraeth Cymru a'r GIG am i bobl Cymru ddefnyddio'r wybodaeth honno a'r gwasanaethau hynny'n dda ac yn briodol, ac i gymryd mwy o gyfrifoldeb drostynt eu hunain a'r bobl o'u cwmpas.

Camau gweithredu

O fewn 9 mis, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi compact drafft gyda'r cyhoedd er mwyn ymgynghori yn ei gylch.

O fewn 12 mis, bydd gan bob Bwrdd Iechyd Lleol ei broses ei hun ar gyfer cynnal archwiliadau blynyddol o gleifion, ac yn sgil trafodaethau ar lefel bwrdd cyhoeddir yr archwiliadau hyn yn ogystal â'r camau y cytunir arnynt mewn ymateb iddynt.

7. Sicrhau bod pob ceiniog yn cyfrif

Mae'r buddsoddiad yn y GIG yng Nghymru wedi mwy na dyblu ers 1999. Er hynny, o ystyried y pwysau ar bwrs y sector cyhoeddus ledled y DU a'r gostyngiad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, bydd y twf mewn cyllid yn arafach o hyn allan yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r GIG ddefnyddio pob ceiniog hyd yn oed yn fwy gofalus nag y mae ar hyn o bryd. Bydd hynny'n galw am gynnal a chadw gofalus, arloesi cyson, ac weithiau am newid gwasanaethau'n sylweddol.

Nid yw gwario ar y GIG yn gost fel y cyfryw, ond yn hytrach yn fuddsoddiad mewn ansawdd bywyd. Ni fydd yr holl wariant yn arwain at fuddion uniongyrchol ar unwaith. Bydd y manteision a ddaw yn sgil hyfforddiant ac ymchwil a datblygu yn ymdreiddio'n raddol i'r gwasanaeth dros nifer o flynyddoedd. Mae'r GIG wedi gwneud defnydd sylweddol o arian sefydlu 'buddsoddi i arbed' i wella'i effeithlonrwydd a thrawsnewid ffyrdd o weithio. Mae hyn wedi helpu i ysgogi gwelliannau yn ystod cyfnod heriol iawn.

Rhaid mynd ati'n ddiflino i geisio cyflawni gwerth am arian, a rhaid bod awydd cryf i wella canlyniadau, chwynnu unrhyw ymarfer gwael ac amrywiaethau diangen sy'n achosi niwed a gwastraff. Dyma, o reidrwydd, fydd busnes dyddiol pob rheolwr a chlinigydd. Nid yw ffocws ar

effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn tynnu'r sylw oddi ar ddibenion craidd y GIG. Mae ansawdd uchel a defnyddio adnoddau'n effeithiol yn ddwy ochr i'r un geiniog.

Camau gweithredu

Rhoddir trefn ariannol newydd ar waith dros y flwyddyn nesaf a fydd yn gwella'r ffordd y mae adnoddau ariannol yn cael eu cynllunio a'u defnyddio, yn unol â blaenoriaethau clinigol.

Dros y flwyddyn nesaf, bydd pob Bwrdd Iechyd Lleol yn datblygu system gyllidebu sy'n rhoi mwy o lais i glinigwyr mewn penderfyniadau ariannol.

Pwysigrwydd ein staff

Mae llwyddiant y GIG yn dibynnu, ym mhob ffordd, ar y bobl sy'n gweithio iddo, p'un a ydynt wedi'u cyflogi'n uniongyrchol neu wedi'u contractio ym maes gofal sylfaenol. Mae ganddynt oll ran hanfodol i'w chwarae i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i bawb sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ymwybodol bod newid yn angenrheidiol. Maent am weld sut bydd newid yn dod â gwerth am arian a buddion i'r bobl dan eu gofal. Maent hefyd am weld sut gallant gyfrannu at y newidiadau hyn, sut byddant yn gallu lleisio'u barn ac, yn hollbwysig, sut bydd hynny'n eu galluogi i weithio'n wahanol er mwyn creu gwasanaethau gwell i'w cleifion a'u cleientiaid sy'n canolbwyntio i raddau mwy ar ansawdd. Mae gan gynrychiolwyr staff ran bwysig i'w chwarae wrth arwain y newidiadau hyn.

Mae arweiniad effeithiol yn hollbwysig i wireddu'r newid hwn mewn diwylliant. Rhaid i staff gael eu hysbrydoli gan y ffaith y bydd ganddynt ran i'w chwarae yn hyn o beth, ac y byddant yn gallu gweld gwelliannau cynnar yn seiliedig ar eu cyfraniadau.

Camau gweithredu

Erbyn gwanwyn 2012, cyhoeddir fframwaith strategol i ddatblygu'r gweithlu a'r sefydliad a fydd yn sicrhau bod y staff cywir yn cael eu cefnogi a'u cynnwys yn llawn mewn darparu gofal rhagorol.

I'n helpu i wneud hyn, bydd y trefniadau partneriaeth presennol rhwng Llywodraeth Cymru, y GIG a'r undebau llafur yn cael eu cryfhau er mwyn helpu i greu GIG y bydd pobl yn falch o weithio iddo.

Gwneud iddo ddigwydd

Mae'n ddigon hawdd siarad am hyn, ond gweithredu sydd ei angen. Er bod yr heriau'n rhai gwirioneddol ac anodd, mae potensial i'r enillion fod yn enfawr, o safbwynt ansawdd bywyd ym mhob rhan o Gymru, bodlonrwydd

staff, ac enw da Cymru. Bydd hyn yn galw am ymdrech a phenderfyniad clir. Mae gan bawb ran i'w chwarae. Mae gan bobl Cymru, fel dinasyddion, hawl i'r gwasanaethau gorau, ond mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i ofalu am eu hunain ac i barchu'r gwasanaethau sydd yma i'w helpu nhw ac eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig arweiniad cryf. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi'n glir sut bydd yr ymrwymïadau yn ein maniffesto yn cael eu cyflawni, a'r buddion i bobl Cymru o ganlyniad iddynt. Caiff cynnydd ei fonitro, a chyhoeddir adroddiadau rheolaidd. Mae'r weledigaeth hon yn egluro ymhellach yr hyn rydym yn ei ddisgwyl, a bydd y ddogfen yn parhau i lywio'r GIG dros y pum mlynedd nesaf. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan y system gynllunio a'r gofynion blynyddol a osodir ar gyfer y GIG.

Rhaid i bob un o gyrff y GIG baratoi ymateb i'r papur hwn, gan ddangos sut byddant yn gweithio gyda'u cymunedau a'u partneriaid, a chan nodi –

- targedau clir ar gyfer cyflenwi lleol
- eu cynlluniau ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau er mwyn cyflawni ansawdd cynaliadwy
- data clir mewn perthynas â chanlyniadau, a gaiff ei fonitro a'i gyhoeddi
- proses ar gyfer meithrin eu gallu i sicrhau a gwella ansawdd.

Bydd gyrff y GIG hefyd yn defnyddio eu pŵer enfawr fel cyflogwyr, perchnogion eiddo a phrynwyr nwyddau a gwasanaethau i helpu i greu cymunedau diogel, hyderus, ffyniannus a chynaliadwy ac i daclo tlodi. Gwneir hynny trwy gyfrwng Byrddau Gwasanaethau Lleol a mentrau fel *Cymunedau yn Gyntaf*, gan wybod y gall newidiadau bach yn y ddarpariaeth iechyd helpu gwasanaethau cyhoeddus eraill i gyflawni eu hamcanion hwythau mewn rhai achosion hefyd.

Bydd system i wella perfformiad ar waith ar gyfer y GIG. Lle caiff unrhyw ddiffyg ei ganfod, bydd angen cymryd camau i'w gywiro. Bydd canlyniadau i unrhyw berfformiad gwael.

Felly rhaid i'r GIG fod â phwrpas eglur. Rhaid iddo fod yn onest gyda'i bartneriaid, cyfathrebu'n gyson ac yn glir, a dangos uchelgais diflino. Rhaid i Fyrddau sicrhau bod eu staff a'u cymunedau yn deall yr hyn maent yn ei fwriadu a pham, a bod ganddynt gyfle gwirioneddol i helpu i lywio eu dyfodol. Staff y GIG yw'r cenhadon gorau sydd ganddo.

Her barhaus

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn parhau â'n hymdrech ar y cyd i wella iechyd a gwasanaethau iechyd. Gan adeiladu ar y newidiadau diweddar ac ymrwymiad cryf staff y GIG i ofal o ansawdd uchel, y nod fydd gwneud cynnydd cyson a chytbwys y gellir sicrhau ei ansawdd a'i arddangos trwy adroddiadau tryloyw. Pan ddaw'r pum mlynedd i ben, dylem weld gwelliannau sylweddol mewn iechyd ym mhob rhan o Gymru

ac ym mhob grŵp o'r boblogaeth. Dylai pawb allu cael gafael yn haws ar ystod eang o wasanaethau diogel, effeithiol a chwbl integredig sydd wedi'u rheoli'n dda ac sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy – gwasanaethau y gall Cymru ymfalchïo ynddynt.